Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Canllawiau ar gyfer Craffu ar Faterion sy'n ymwneud â Throseddu ac Anhrefn – Cymru

## Rhoi Adran 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ar waith

Cylchlythyr Cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 001/2010

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:

**Is-adran Diogelwch Cymunedol**
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Cangen Democratiaeth**
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5443 8
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2010
CMK-22-10-142
E5200910

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyniad | | 3 |
| **Adran 1 - Cyflwyniad i ddiogelwch cymunedol** | | **5** |
| 1.1 | Yr hanes yn gryno | 5 |
| 1.2 | Blaenoriaethau diogelwch cymunedol | 6 |
| 1.3 | Pwy sy'n gwneud beth yn y maes diogelwch cymunedol? | 6 |
| 1.4 | Yr awdurdodau cyfrifol | 7 |
| 1.5 | Tirlun perfformiad ar gyfer troseddu a diogelwch cymunedol | 11 |
| 1.6 | Craffu a diogelwch cymunedol - cydweithio | 11 |
| **Adran 2 - Beth sy'n graffu da ar droseddu ac anhrefn - ei roi ar waith** | | **13** |
| 2.1 | Beth yw craffu, a pham y mae'n bwysig | 13 |
| 2.2 | Materion strwythurol | 15 |
| 2.3 | Meysydd craffu allweddol | 15 |
| 2.4 | Materion mwy cyffredinol sy'n ymwneud â gwaith partneriaeth | 17 |
| **Adran 3 - Canllawiau manwl ar adran 19 ac 20 o'r Ddeddf a'r Rheoliadau** | | **18** |
| 3.1 | Beth mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud | 18 |
| 3.2 | Strwythurau pwyllgorau | 18 |
| 3.3 | Rôl y pwyllgor | 19 |
| 3.4 | Amlder cyfarfodydd | 22 |
| 3.5 | Cyfethol | 22 |
| 3.6 | Ymateb i geisiadau | 24 |
| 3.7 | Mynd i gyfarfodydd y pwyllgor | 26 |

**Atodiadau**

Atodiad A - Geirfa

Atodiad B - Adnoddau ar gyfer y Cam Cyntaf

Atodiad C - Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009 (Saesneg yn unig)

Atodiad D - Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Saesneg yn unig)

# Cyflwyniad

Ers cyflwyno'r darpariaethau partneriaeth yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998, gwelwyd newid mawr o ran agwedd cyrff lleol at sicrhau cymunedau mwy diogel drwy bartneriaeth. Mae'r heddlu, llywodraeth leol ac amrywiaeth o asiantaethau eraill wedi dod at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau cysylltiedig â throseddu ac anhrefn sydd o bwys i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a thrwy ddatblygu gwaith partneriaeth, llwyddwyd i gyfrannu at leihau troseddu yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gan adeiladu ar y datblygiadau hyn, darparodd Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ar gyfer cyfres o newidiadau yn y ffordd y bydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (Partneriaethau) yng Nghymru yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â throseddu, anhrefn a chamddefnyddio sylweddau yn eu hardal. Mae'r newidiadau hyn, sydd yn adran 19, 20 a 21 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, yn cynnwys gofyniad y dylai strwythurau craffu awdurdodau lleol ystyried materion sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn.

Yng Nghymru, cychwynnodd darpariaethau Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn craffu ar droseddu ac anhrefn, ar 1 Hydref 2009. Ar y dyddiad hwnnw, daeth rheoliadau'r Swyddfa Gartref o dan y Ddeddf honno i rym yng nghyswllt Cymru, ac mae'r rheoliadau hynny'n nodi'n fanylach yr hyn y bydd gofyn i awdurdodau lleol ei wneud o ran craffu ar droseddu ac anhrefn. (Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009 - gweler Atodiad C).

Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyngor a chanllawiau i Bartneriaethau ynglŷn â sut mae cyflawni gofynion y ddeddf ac ynglŷn â sut y gall y broses craffu eu cynorthwyo i fynd i'r afael yn well eto â'r materion hynny sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn sydd o bwys i'w cymunedau lleol.

Yn ei hanfod, mae a wnelo craffu ag atebolrwydd. Mae gan gynghorwyr le unigryw yn y broses benderfynu leol, ac maent yn cynnig llinell atebolrwydd ddemocrataidd glir rhwng y broses honno a'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Bydd y darpariaethau newydd yn eu galluogi i sicrhau bod eu safbwynt unigryw'n dylanwadu ar sut mae'r Partneriaethau'n mynd i'r afael â throseddu ac anhrefn ac fe allai hynny fod o fudd i gymunedau ym mhobman.

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn ar gyfer amrywiaeth o bobl:

- Ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y maes diogelwch cymunedol, bydd yn eu cyflwyno i waith craffu mewn llywodraeth leol, i'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac i'r cyfraniad cadarnhaol y gall ei wneud i'w gwaith;
- Ar gyfer cynghorwyr, a swyddogion sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol, bydd yn cynnig gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol (gan gynnwys y polisïau a'r strwythurau cenedlaethol) ac yn eu cynghori sut y gall craffu ychwanegu gwerth at y gwaith y maent yn ei wneud gyda phartneriaethau.

Drwy’r ddogfen, defnyddir **blychau lliw** i dynnu sylw at bwyntiau allweddol a all fod yn arbennig o ddefnyddiol i grwpiau penodol:

Efallai mai’r wybodaeth yn y blychau **oren** fydd fwyaf defnyddiol i’r Partneriaethau; ac mai’r wybodaeth yn y blychau **porffor** fydd fwyaf defnyddiol i gynghorwyr ac i swyddogion awdurdodau lleol a bydd yr wybodaeth yn y blychau **glas** yn ddefnyddiol i bawb.

Mae’r canllawiau’n cynnwys yr adrannau a ganlyn:

- Adran 1: cyflwyniad i ddiogelwch cymunedol, i aelodau a swyddogion sydd o bosibl yn anghyfarwydd â rhai o’r themâu a’r jargon.
- Adran 2: drwy gyfrwng nifer o enghreifftiau, archwilir beth yw hanfod craffu da ar faterion sy’n ymwneud â throseddu ac anhrefn.
- Adran 3: trafodaeth ynglŷn â’r agweddau ymarferol, gan gynnwys dynodi pwyllgorau troseddu ac anhrefn a chyfrifoldebau’r partneriaid diogelwch cymunedol.

**Nodiadau ynglŷn â geiriad a chwmpas y canllawiau**

Pan ddefnyddiwn y gair “pwyllgor” yn y canllawiau, gan amlaf, byddwn yn cyfeirio at yr hyn a elwir yn y rheoliadau’n “bwyllgor troseddu ac anhrefn”. Yr ydym wedi cwtogi’r term er mwyn osgoi ei ailadrodd heb fod angen.

# Adran 1 - Cyflwyniad i ddiogelwch cymunedol

**1.1 Yr hanes yn gryno**

**Efallai mai i aelodau neu swyddogion craffu y bydd yr wybodaeth hon fwyaf defnyddiol**

1.1.1 Yng Nghymru, gelwir y partneriaethau statudol a grëwyd yn wreiddiol drwy Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, i ddatblygu a gweithredu strategaethau er mwyn lleihau troseddu ac anhrefn, yn Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Yn Lloegr, fe'u gelwir yn Bartneriaethau Lleihau Troseddu ac Anhrefn (CDRPs). Mae'r partneriaethau hyn wedi tyfu a datblygu, gan gynnwys yn sgil newidiadau deddfwriaethol eraill a gyflwynwyd yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

1.1.2 Yn eu hanfod, mae'r Partneriaethau'n cynnwys pump 'awdurdod cyfrifol' statudol ac mae gofyn i'r rhain gydweithio i gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol a'u gwireddu. Awdurdodau cyfrifol y Partneriaethau yw:

- Yr awdurdod lleol.
- Yr heddlu.
- Awdurdod yr heddlu.
- Yr awdurdod tân ac achub.
- Y bwrdd iechyd lleol.

1.1.3 Mae'r awdurdodau cyfrifol yn gyfrifol am weithio gydag asiantaethau a chyrff lleol eraill i gynhyrchu cynllun treigl 3 blynedd bob blwyddyn yn ogystal ag asesiadau strategol blynyddol.

1.1.4 Mae'n ofynnol bod awdurdodau cyfrifol yn cydweithredu ag ystod o gyrff, neu eu bod yn eu gwahodd i gymryd rhan yng ngwaith y Bartneriaeth. Er bod y term "partneriaeth" yn cael ei ddefnyddio yn achos pawb sy'n perthyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yr awdurdodau cyfrifol yw'r unig gyrff neu asiantaethau y mae'n ddyletswydd arnynt i fodloni'r gofynion statudol.

1.1.5 Mae Deddf Plismona a Throseddu 2009 yn cynnwys darpariaeth i'r gwasanaeth prawf ddod yn awdurdod cyfrifol, ac i ddyletswyddau Partneriaethau gael eu hehangu i gynnwys lleihau aildroseddu. Rhagwelir y daw'r newidiadau hyn i rym ym mis Ebrill 2010.

1.1.6 Yn 2006, cwblhawyd adolygiad o'r darpariaethau sy'n ymwneud â phartneriaethau yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a diwygiwyd y ddeddfwriaeth wedi hynny yn sgil Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, gan gynnwys pŵer i gyflwyno Safonau Cenedlaethol statudol er mwyn gwneud y Partneriaethau'n gyfrwng mwy effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â throseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau yn eu cymunedau.

1.1.7 Ceir canllawiau ynglŷn â'r Safonau Cenedlaethol statudol ar gyfer Partneriaethau yn "Cyflawni Cymunedau Diogelach: Canllaw i weithio effeithiol mewn partneriaeth" sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref drwy ddilyn y ddolen hon: http://www.crimereduction.homeoffice.gov.uk/regions/Guidance%20Welsh.pdf

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

**Efallai y bydd cynghorwyr a swyddogion craffu'n meddwl bod y Partneriaethau hyn ar waith ers tipyn, a bod hynny'n golygu bod pobl o bosibl wedi hen sefydlu perthynas â'i gilydd, a'r partneriaid yn poeni am effaith y gwaith craffu newydd ar ddynameg pethau. Efallai eu bod hefyd yn gyfarwydd â gweithio o fewn fframwaith sydd wedi'i ddiffinio'n fanwl, ac nad ydynt ond megis dechrau ymaddasu i ymagwedd fwy hyblyg sy'n caniatáu mwy o ryddid i benderfynu pethau'n lleol.**

### 1.2 Blaenoriaethau diogelwch cymunedol

1.2.1 Er mwyn adnabod y blaenoriaethau sydd o'r pwys mwyaf i gymunedau lleol a gweithredu arnynt, mae gofyn i'r awdurdodau cyfrifol gyflawni nifer o brif dasgau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- paratoi asesiad strategol blynyddol. Dogfen yw hon sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer troseddu a diogelwch cymunedol yn yr ardal, drwy ddadansoddi'r wybodaeth a ddarperir gan asiantaethau partner a'r gymuned
- cynhyrchu cynllun partneriaeth tair blynedd treigl bob blwyddyn, sy'n esbonio sut yr eir ati i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hynny
- ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned ynglŷn â materion sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn
- rhannu gwybodaeth rhwng yr awdurdodau cyfrifol a phartneriaid eraill y Bartneriaeth.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

**Mae'r asesiad strategol yn cynnig cyfle i dyrchu o dan wybodaeth lefel-uchel a meddwl i ba raddau y mae'r bartneriaeth yn deall yr ardal a'i hangen o ran mapio. Mae gan rai ardaloedd dechnoleg eithaf soffistigedig at eu defnydd i fapio troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Efallai nad yw cynghorwyr o reidrwydd yn gwybod am y rhain ac fe allant fod yn ddefnyddiol.**

### 1.3 Pwy sy'n gwneud beth yn y maes diogelwch cymunedol?

1.3.1 Nid â'r heddlu'n unig y mae a wnelo diogelwch cymunedol. Fel sy'n wir am bopeth y bydd awdurdodau lleol a'u partneriaid yn ei wneud dros eu cymunedau wrth fynd i'r afael â heriau anodd, mae angen i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau ddod at ei gilydd a chyfrannu at fynd i'r afael â throseddu a'r hyn sy'n ei achosi.

1.3.2 Ehangwyd ar y thema hon yn y Papur Gwyrdd ar Blismona, ***O'r Gymdogaeth i'r Wlad Gyfan: Plismona ein Cymunedau Gyda'n Gilydd***, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008, sy'n pwysleisio rôl y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, partneriaethau eraill a chymunedau lleol o ran gwneud cymunedau'n fwy diogel.

1.3.3 Felly, mae'n gwbl amlwg ei bod yn angenrheidiol sicrhau cydweithio clòs, ar draws ystod eang o sefydliadau a sectorau.

**1.4 Yr awdurdodau cyfrifol**

1.4.1 Yn Adran 1.1, rhestrwyd yr awdurdodau cyfrifol statudol sy'n ffurfio'r Partneriaethau. Er mai rôl pwyllgor craffu yw **craffu ar y bartneriaeth yn ei chrynswth**, mae craffu da yn seiliedig ar sicrhau perthynas a chyd-ddealltwriaeth rhwng pobl. Yn yr adran hon, esbonnir yn fwy manwl y rolau unigol o fewn y bartneriaeth.

*Awdurdod lleol*

1.4.2 Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol staff sy'n ymwneud yn benodol â diogelwch cymunedol, er y gall yr adnoddau fod yn brin mewn awdurdodau llai. Ond mae angen cefnogaeth amrywiaeth eang o bobl ym mhob rhan o'r cyngor er mwyn i ddiogelwch cymunedol fod yn effeithiol. Mae gan y cyngor ddyletswydd statudol dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gyflawni ei holl swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i'r ffaith fod angen atal troseddu ac anhrefn yn ei ardal. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw llawer o'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis tai, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, diogelu/lles plant, cynllunio, a thrwyddedu alcohol. Felly, mae'n bwysig iawn prif-ffrydio atal troseddu ac anhrefn drwy wahanol swyddogaethau'r awdurdod lleol, ac efallai y bydd pwyllgorau craffu am ystyried ai dyna'r sefyllfa yn eu hardal hwy.

1.4.3 Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig hefyd o ran plant a phobl ifanc ac mae swyddogaethau awdurdodau lleol, megis y **Timau Troseddau Ieuenctid** a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gyfranwyr pwysig at ddiogelwch cymunedol. Bydd y Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithio o fewn yr awdurdod lleol ond maent yn dwyn ynghyd bartneriaethau sy'n cynnwys sawl asiantaeth o fyd addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Fe'u goruchwylir ar lefel genedlaethol gan y **Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**.

*Yr Heddlu*

1.4.4 Mae pedwar heddlu Cymru'n chwarae rhan hollbwysig yn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Gellir disgrifio rôl sylfaenol gwasanaeth yr heddlu fel a ganlyn:

- Cynnal y gyfraith yn deg ac yn gadarn.
- Atal troseddu.
- Mynd ar drywydd y rheini sy'n torri'r gyfraith a'u dwyn i gyfiawnder.
- Amddiffyn, cynorthwyo a thawelu meddwl y gymuned.
- Cael eu gweld yn gweithredu gydag unplygrwydd, synnwyr cyffredin a chrebwyll cadarn.

1.4.5 Arweinir pob llu gan Brif Gwnstabl, sy'n gyfrifol am bennu trywydd y llu a'i reoli. Gall Prif Gwnstabliaid benderfynu eu hunain sut mae trefnu eu lluoedd. Trefnir y rhan fwyaf ohonynt yn Unedau Rheoli Sylfaenol. O dan lefel yr Unedau hynny, ceir **Timau Cymdogaethau Mwy Diogel.** Mae'r rhain wedi'u lledaenu ledled Cymru a Lloegr ac maent yn rhan bwysig o'r gwaith partneriaeth.

*Awdurdod yr heddlu*

1.4.6 Mae awdurdodau'r heddlu'n bodoli i ddal heddluoedd yn atebol yn eu cymunedau. Mae awdurdodau'r Heddlu'n bwyllgorau sy'n cynnwys aelodau o'r cyngor sydd wedi'u hethol yn lleol, ac aelodau annibynnol; yr aelodau sy'n gynghorwyr fydd y mwyafrif bob amser. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau'r heddlu ddau aelod ar bymtheg (naw aelod o'r cyngor ac wyth aelod annibynnol), er bod gan ambell un, gan gynnwys Dyfed Powys a De Cymru bedwar aelod ar bymtheg (deg cynghorydd a naw aelod annibynnol). O ran cynghorwyr sy'n aelodau, adlewyrchir cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod lleol i'r graddau mwyaf posibl. Mae'n ofynnol bod yr aelodau annibynnol yn byw neu'n gweithio yn ardal awdurdod yr heddlu, ac yn cael eu penodi gan yr awdurdod o restr fer a luniwyd gan banel dethol. Dylai o leiaf un aelod annibynnol fod yn ynad lleyg. Mae gan awdurdodau'r heddlu strwythur swyddogion hefyd, sy'n cynorthwyo gwaith y pwyllgor.

1.4.7 Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod i sicrhau eu bod yn cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol yn eu hardaloedd, gan ystyried:

- Blaenoriaethau Plismona Strategol yr Ysgrifennydd Cartref
- unrhyw dargedau perfformiad ac amcanion a bennir gan yr awdurdod
- unrhyw gynllun plismona lleol a roddir gan yr awdurdod.

1.4.8 Mae ganddynt ddyletswyddau hefyd o ran sicrhau bod yr heddlu'n cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998; sicrhau bod yr heddlu'n cydweithio er budd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu heddluoedd. Mae awdurdodau'r heddlu'n meddu ar y grym i benodi neu i ddiswyddo'r Prif Gwnstabl (gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Cartref), ac mae ganddynt gyfrifoldebau yng nghyswllt cyllid eu heddlu: byddant yn pennu'r gyllideb ar gyfer yr heddlu yn ogystal â gosod praesept y dreth gyngor.

1.4.9 Mae Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu'n cynrychioli ac yn gweithredu fel llais cenedlaethol dros awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac yn cynorthwyo awdurdodau heddlu i wneud eu gwaith yn lleol. Yng Nghymru, mae Awdurdodau Heddlu Cymru wedi'i sefydlu'n Gydbwyllgor Statudol i gynrychioli'r pedwar awdurdod, i roi cyngor ynghylch materion yn ymwneud â phlismona yng Nghymru ac i fynd ati'n benodol i hybu'r agenda cydweithio. Mae Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau'r heddlu ynglŷn â'u rôl fel aelodau'r Bartneriaeth, ac mae'r rheini i'w gweld yn http://www.apa.police.uk/APA/Publications/Contributing+to+Crime+and+Disorder+Reduction+Partnerships.htm

1.4.10 Ynghyd â'r Ysgrifennydd Cartref, bydd heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu'n llunio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer plismona drwy'r 'Trefniant Tairochrog'. Yn ei hanfod, dyma sut mae'r 'trefniant tairochrog' yn gweithio:

- Mae'r **Ysgrifennydd Cartref** yn atebol i Senedd y DU ac i'r cyhoedd am ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol, ac mae'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol gwasanaethau'r heddlu am y flwyddyn i ddod ac am dargedau a dangosyddion perfformiad statudol i fesur perfformiad yr heddlu.
- Mae gan **Brif Swyddogion yr Heddlu** annibyniaeth cyffredinol o ran gweithredu. Y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am gyfeiriad yr heddlu ac am ei reolaeth, gan gynnwys staff sifil a rheolaeth ariannol ddirprwyedig.
- Mae gan **awdurdodau'r heddlu** ddyletswydd statudol i gynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer eu hardal ac i ddal y prif swyddog yn atebol am arfer ei swyddogaethau a swyddogaethau'r rheini sy'n cael eu rheoli ac yn cael cyfarwyddyd ganddo.

1.4.11 Drwy ddal y Prif Gwnstabl yn atebol, bydd awdurdodau'r heddlu'n ymgymryd â swyddogaethau tebyg i'r rheini y mae pwyllgorau craffu'n eu harfer o bosibl. Mae'n bwysig pwysleisio y dylai cyrff craffu ac awdurdodau'r heddlu gydweithio'n glòs er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau'n ategu ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys deall swyddogaethau heddluoedd ac awdurdodau'r heddlu wrth lywodraethu'r gwasanaeth heddluoedd, a dyna pam y cynghorir **yn gryf iawn** awdurdodau lleol i sicrhau bod cynrychiolwyr awdurdodau'r heddlu'n chwarae rhan weithredol mewn pwyllgorau troseddu ac anrhefn, yn enwedig pan fydd yr heddluoedd yn bresennol (gweler adran 3.5: Cyfethol).

*Tân ac achub*

1.4.12 Mae gan y gwasanaethau tân ac achub gylch gorchwyl eithaf cul, ond maent yn aml yn aelodau ymroddedig a brwd o'r Partneriaethau. Mae gan y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru dri rhanbarth. Yr **awdurdod tân** sy'n cynnig yr atebolrwydd. Pwyllgor o gynghorwyr yw'r awdurdod tân. Mae cyfansoddiad y pwyllgor hwn yn dibynnu ar ffiniau'r gwasanaeth tân. Lle bydd y gwasanaeth tân yn gwasanaethu mwy nag un awdurdod, ceir pwyllgor allanol sy'n cynnwys cynghorwyr o bob un o'r awdurdodau lleol yn yr ardal.

1.4.13 Gall y gwasanaeth tân ac achub gyfrannu at ddiogelwch cymunedol fel a ganlyn:

- addysgu pobl ynglŷn â diogelwch rhag tân, canolbwyntio ar blant mewn ysgolion a grwpiau yn y gymuned a all fod yn arbennig o agored i niwed
- diogelwch ar y ffyrdd - lleihau nifer y gwrthdrawiadau a'r marwolaethau damweiniol
- cynllunio ar gyfer argyfyngau megis llifogydd ac ymateb iddynt, a
- bod yn fentor cadarnhaol ac yn fodel rôl i bobl ifanc.

*Byrddau Iechyd Lleol*

1.4.14 Byrddau iechyd lleol yw un o'r pum awdurdod cyfrifol dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn ac mae cyrff iechyd yn bartneriaid hollbwysig yng nghyswllt diogelwch cymunedol. Dyma rai o'r meysydd lle mae gan iechyd rôl o ran diogelwch cymunedol:

- mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill, comisiynu a darparu gwasanaethau cyffuriau ac alcohol priodol

- trefnu i ddarparu cyngor ynglŷn ag iechyd neu driniaeth i bobl sy'n eu rhoi eu hunain neu bobl eraill mewn sefyllfa beryglus yn sgil y ffordd y maent yn defnyddio cyffuriau neu alcohol
- cynorthwyo i gefnogi pobl sy'n dioddef trais domestig
- gweithio gyda phartneriaid lleol eraill er mwyn helpu i osgoi problemau yn y lle cyntaf, er enghraifft drwy rybuddio'r heddlu ynglŷn ag eiddo trwyddedig lle bydd llawer o anafiadau cysylltiedig ag alcohol yn digwydd.

*Y Gwasanaeth Prawf*

1.4.15 Disgwylir y bydd pawb sy'n darparu gwasanaethau prawf mewn ardal yn dod yn awdurdod cyfrifol o dan y newidiadau deddfwriaethol sy'n debygol o ddod i rym o fis Ebrill 2010 ymlaen. Wedyn bydd gan y gwasanaeth prawf rôl gydradd i'w chwarae mewn partneriaethau ar y cyd â'r pum awdurdod cyfrifol arall. Mae gan rai ardaloedd prawf berthynas effeithiol eisoes a rôl glir i'w chwarae oddi mewn i bartneriaethau lleol, er y bydd y ddyletswydd a osodir ar bartneriaethau i fynd i'r afael ag aildroseddu ac ar y gwasanaeth prawf i fod yn awdurdod cyfrifol llawn yn gwella'r berthynas hon yn y dyfodol.

1.4.16 Nodau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yw:

- Diogelu'r cyhoedd.
- Lleihau aildroseddu.
- Cosbi troseddwyr yn briodol yn y gymuned.
- Sicrhau bod troseddwyr yn ymwybodol o effaith eu trosedd ar bobl sy'n dioddef yn eu sgil ac ar y cyhoedd.
- Adsefydlu troseddwyr.

1.4.17 Blaenoriaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yw diogelu'r cyhoedd. Er mwyn gwneud hyn mae'r Gwasanaeth Prawf yn cydweithio'n glòs ag asiantaethau eraill gan gynnwys y Gwasanaeth Carchardai, y gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol a thai awdurdodau lleol. Rheolir troseddwyr sy'n peri risg o niwed difrifol drwy'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). Rhoddwyd MAPPA ar waith ym mis Ebrill 2001. Mae'r corff hwn yn ei gwneud yn ddyletswydd ar heddluoedd, ar garchardai ac ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i asesu a rheoli risgiau a berir gan droseddwyr ym mhob cymuned drwy Gymru a Lloegr. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall MAPPA argymell rhagor o fonitro gan yr heddlu, camau arbennig i ddiogelu dioddefwyr a defnyddio llety a oruchwylir yn ofalus.

1.4.18 Mae'r Gwasanaeth Prawf yn ymdrechu i ostwng lefelau aildroseddu drwy weithio gyda throseddwyr i newid eu hymddygiad a rhoi sylw i'r materion a allai beri iddynt aildroseddu. Cyflawnir y gwaith mewn saith maes:-

- Llety.
- Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth.
- Iechyd.

- Cyffuriau ac Alcohol.
- Materion ariannol, Budd-daliadau a Dyled.
- Plant a Theuluoedd.
- Agweddau, Meddwl ac Ymddygiad.

1.4.19 Mae'r Gwasanaeth Prawf hefyd yn mynd ati i dargedu Troseddwyr Cyson (PPO) sy'n aml â phroblemau cyffuriau ac yn troseddu er mwyn ariannu eu harferion. Ar ôl dethol yn ofalus, cynigir lle i'r troseddwyr ar y cynllun PPO, sy'n eu galluogi i gael mynediad cyflym at wasanaethau a chymorth gan sefydliadau ac asiantaethau lleol. Oni chydymffurfir â'r rhaglen, gweithredir yn ddiymdroi a rhoddir cosbau. Bydd y troseddwyr yn cael cymorth drwy gyfrwng rhagor o gyswllt â staff y gwasanaeth prawf, gwasanaeth adsefydlu a chwnsela ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau, cymorth i ddod o hyd i rywle i fyw, cyngor gyrfa a hyfforddiant a chymorth i newid ymddygiad er mwyn byw bywyd heb droseddu.

**1.5 Y tirlun perfformiad ar gyfer troseddu a diogelwch cymunedol**

1.5.1 Mae'r tirlun perfformiad ar gyfer diogelwch cymunedol, a'r Partneriaethau, yn newid. Dyma rai o'r newidiadau:

- cyflwyno'r Addewid Plismona
- mwy o ganolbwyntio ar graffu'n drwyadl ar berfformiad yr heddlu gan awdurdod yr heddlu
- y monitro allanol i symud oddi wrth y Swyddfa Gartref i Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
- mapiau troseddu a gwybodaeth ar lefel cymdogaeth ar gael bellach i bob un o'r 43 heddlu o fis Rhagfyr 2008 ymlaen
- mwy o wybodaeth gyhoeddus o lawer - arolygon, gwefan lle ceir gwybodaeth chwarterol, adroddiadau cyhoeddus ynglŷn ag archwiliadau awdurdodau'r heddlu, llythyrau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi at y prif gwnstabl a'r cadeirydd yn nodi problemau ynglŷn â pherfformiad ac yn gofyn am gynllun gweithredu.

**Targed hyder**

1.5.2 Yn benodol, dylai pwyllgorau craffu fod yn ymwybodol bod y Swyddfa Gartref wedi dileu'r holl dargedau cenedlaethol ar droseddu ac eithrio un, sy'n ddangosydd barn y cyhoedd, a fesurir drwy Arolwg Troseddu Prydain. Mae'r cwestiwn yn gofyn i'r cyhoedd a ydynt yn cytuno bod "yr heddlu a'r cyngor lleol yn ymdrin â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r materion sy'n ymwneud â throseddu sy'n bwysig yn yr ardal hon." Mae'r Swyddfa Gartref wedi pennu targed hyder cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac mae pob heddlu unigol wedi cael targed ar gyfer gwella hefyd. Mae'n bwysig bod pwyllgorau craffu'n deall y bydd cynyddu hyder yn un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer heddluoedd lleol.

**1.6 Craffu a diogelwch cymunedol - cydweithio**

1.6.1 Mae gan bartneriaid diogelwch cymunedol hanes hir o gydweithio a sicrhau canlyniadau. Mae cyflwyno pwyllgorau craffu ar droseddu ac anhrefn yn cryfhau'r trefniadau

partneriaeth presennol drwy ddatblygu strwythur clir ar gyfer goruchwylio ac adolygu ymateb ar y cyd ym maes diogelwch cymunedol a thrwy greu cysylltiad cliriach rhwng asiantaethau partner a'r cyhoedd yng nghyswllt diogelwch cymunedol.

1.6.2 Oherwydd y dylai rôl craffu ganolbwyntio ar y bartneriaeth yn ei chrynswth, os bydd materion yn codi sy'n ymwneud yn benodol â sefydliad partner penodol, efallai y bydd yn briodol cyfeirio materion o'r fath at gyrff llywodraethu'r sefydliad hwnnw iddo gymryd camau.

**Gall craffu, o'i wneud yn dda, bob tro ychwanegu gwerth. Gall llygad annibynnol wella gwasanaethau cyhoeddus drwy gynnig syniadau cytbwys, adeiladol ar sail gwaith ymchwil. Mae rhan o'r llwyddiant hwnnw, fodd bynnag, yn dibynnu ar ddewis y pwnc iawn a deall y tirlun. Dyma ambell awgrym ynglŷn â sut y gallai craffu ar faterion sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn ychwanegu gwerth a chanolbwyntio ar faterion sydd o bwys i'r cyhoedd:**

***Cymdogaethau* - Mae cymdogaethau'n bwysig iawn ar gyfer diogelwch cymunedol ac i gynghorwyr, ond efallai y bydd angen archwilio'n ofalus sut mae manteisio i'r eithaf ar y cysylltiad hwn - nid oes darlun cenedlaethol ar gael o'r hyn y dylai cymdogaethau fod, felly maent yn wahanol ym mhobman. Ond mae gan bob rhan o Gymru a Lloegr dîm Plismona yn y Gymdogaeth, ac mae llawer o awdurdodau lleol wedi cysylltu hyn â'u trefniadau eu hunain ar gyfer rheoli'r gymdogaeth ac â chynghorwyr wardiau.**

***Hyder* - Mae'r agenda hyder newydd i gynghorau a'r heddlu'n cynnig cyfleoedd go iawn ar gyfer craffu. Yn ogystal â rhannu'r cyfrifoldeb rhwng y ddau sefydliad, mae'n faes hefyd y dylai fod gan gynghorwyr olwg unigryw arno. Wrth i'r heddlu a'r partneriaid ganolbwyntio mwy ar gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, efallai y bydd craffu'n gallu cynnig cymorth ac awgrymiadau ymarferol. Gallai hyn fanteisio ar wybodaeth am y gymuned, neu gynorthwyo i gysylltu'r heddlu â phrofiad gwasanaethau eraill yn yr ardal sydd wedi llwyddo i feithrin cysylltiad â phobl leol. Un o dasgau awdurdodau'r heddlu yw dal y Prif Gwnstabl yn atebol am berfformiad o'i gymharu â'r mesur hyder, felly gallai hyn hefyd fod yn faes ffrwythlon ar gyfer craffu ar y cyd ag awdurdod yr heddlu.**

***Cyfiawnder troseddol* - Mae'r Mesur Plismona a Throseddu'n cynnwys camau i ychwanegu lleihau aildroseddu at feysydd canolbwyntio craidd y Partneriaethau yn ogystal ag i gynyddu cyfrifoldebau'r gwasanaeth prawf. Bydd y newidiadau hyn, ochr yn ochr â chanolbwyntio'n glir ar reoli troseddwyr mewn modd integredig, yn golygu cyfnod o newid. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn annog ynadon i ymwneud mwy ag ymgysylltu â'r gymuned. Efallai y byddai partneriaethau ar eu hennill o gael cymorth gan wasanaethau craffu i'w cynorthwyo i reoli'r cyfnod pontio hwn yn llwyddiannus ac i sicrhau'r budd mwyaf yn sgil ymgysylltu'n well â'r gymuned cyfiawnder troseddol.**

# Adran 2 - Beth sy'n graffu da ar droseddu ac anhrefn - ei roi ar waith

## 2.1 Beth yw craffu, a pham y mae'n bwysig

**Efallai mai i bartneriaid diogelwch cymunedol y byddai'r adran hon fwyaf defnyddiol**

2.1.1 Yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2000, newidiwyd y ffordd yr oedd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn cyflawni eu gwaith. Disodlwyd y system pwyllgorau blaenorol gan system cabinet a oedd yn golygu, gan amlaf, bod y cyngor yn penodi arweinydd a fyddai'n dewis hyd at 9 o gynghorwyr eraill i ffurfio'r cabinet neu'r weithrediaeth.

2.1.2 Erbyn hyn, y weithrediaeth sy'n penderfynu ynglŷn â'r rhan fwyaf o bethau. Cabinet sy'n cynnwys nifer o gynghorwyr yw hwn, a phob un ohonynt yn gyfrifol am faes polisi penodol. Bydd nifer fach o gynghorau'n rhoi trefniadau amgen ar waith, a elwir "Y Pedwerydd Dewis", lle bydd bwrdd gwleidyddol gytbwys yn gweithredu yn lle'r weithrediaeth. Yn y canllawiau hyn, bydd unrhyw gyfeiriad at y weithrediaeth yn cynnwys bwrdd hefyd.

2.1.3 I wrthbwyso'r crynodiad hwn o awdurdod gweithredol, ac er mwyn sicrhau bod aelodau eraill yn gallu cyfrannu at broses benderfynu a phroses datblygu polisïau'r cyngor, darparwyd ar gyfer yr hyn a elwir yn "arolygu a chraffu". Dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, byddai'n rhaid i awdurdodau lleol a fyddai'n newid eu trefniadau gweithredol sefydlu pwyllgor neu bwyllgorau o blith y cyngor i wneud y gwaith arolygu a chraffu hwn. Gwaith pob awdurdod yw penderfynu beth fyddai rolau'r pwyllgorau hyn, ond mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi ceisio sefydlu system lle byddent yn gyfrifol am ddal y weithrediaeth yn atebol ac am wneud gwaith datblygu polisïau. Un elfen sy'n gyffredin i'r holl swyddogaethau craffu yw eu bod yn gallu ymchwilio i faterion ac argymell camau i'w cymryd, ond eu hunig bwerau yw pwerau i gynghori a pherswadio, ar sail y dystiolaeth a gesglir ac a ddadansoddir ganddynt.

2.1.4 Ers 2000, mae cyfrifoldebau a phwerau pwyllgorau craffu wedi ehangu'n sylweddol. Mewn ambell awdurdod, bydd swmp y gwaith craffu manwl yn cael ei wneud y tu allan i'r pwyllgorau, gan grwpiau "gorchwyl a gorffen" (bydd gan rai awdurdodau enwau gwahanol ar y rhain, ond yn eu hanfod, paneli bach anffurfiol o gynghorwyr, ac weithiau pobl a gyfetholir o'r gymuned ar sail eu profiad neu eu gwybodaeth yw'r rhain, a rhoddir amser penodol iddynt gwblhau eu gwaith).

2.1.5 Hefyd, mewn llawer i achos erbyn hyn, bydd gwaith craffu'n cynnwys gwaith partneriaid, nid dim ond gwaith yr awdurdod lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog hyn ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r peth ymhellach drwy gyfrwng y pwerau a drosglwyddwyd i'r Cynulliad dros graffu a llywodraethu sydd yn Neddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009.

**Egwyddorion Craffu**[1]

2.1.6 Ceir pedair egwyddor sylfaenol a ddylai fod yn sail i weithgarwch craffu:

1. rhoi her 'cyfaill beirniadol' i lunwyr polisïau a phenderfynwyr y weithrediaeth
2. galluogi i lais a phryderon y cyhoedd a'i gymunedau gael ei glywed
3. ei gyflawni gan 'lywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain y broses graffu ac yn berchen arni; a
4. sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

**Craffu ar waith**

2.1.7 Mae arferion craffu'n amrywio o'r naill ran o Gymru i'r llall, ac nid oes modd mabwysiadu un agwedd neu un safon drwy'r wlad ar gyfer craffu. Felly, seilir y trefniadau craffu dan adran 19, 20 a 21 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, a'r rheoliadau sy'n gefn iddynt, ar agwedd hyblyg a galluogol.

**Os ydych chi'n bartner diogelwch cymunedol, bydd yn rhaid ichi weithio'n glòs gyda'ch awdurdod lleol i weld sut y gwnaiff craffu ar faterion diogelwch cymunedol weithio orau ichi.**

2.1.8 Nid yw 'un system i bawb' yn briodol ac mae'r canllawiau hyn yn cynnig enghreifftiau o waith craffu o safon i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu ymagwedd at graffu ar droseddu ac anhrefn sy'n cydweddu â pholisïau craffu eraill, sy'n ystyried trefniadau partneriaethau lleol, sy'n gymesur ac sydd felly'n ychwanegu gwerth at weithgarwch troseddu ac anhrefn lleol. Gweler Adran 2.2.

**Gwleidyddiaeth**

2.1.9 Os yw ymwneud â chraffu (cysyniad craffu, a'r ffordd y caiff ei roi ar waith mewn awdurdodau lleol) yn beth newydd ichi, efallai eich bod yn poeni am wleidyddiaeth. Efallai eich bod yn poeni'n benodol, drwy fynd i bwyllgor neu drwy roi tystiolaeth mewn ffordd arall, y cewch eich tynnu'n anfoddog i ganol dadl wleidyddol.

**Gall craffu fod yn broses nad yw'n bleidiol wleidyddol. Mae llawer o gynghorwyr wedi gwneud llawer o waith i sicrhau bod diwylliant o gonsensws ar waith mewn pwyllgorau, a bydd aelodau o wahanol grwpiau gwleidyddol yn cydweithio'n dda ar lawer o gynghorau. Er y gall anghytundebau godi, mae gan bob cynghorydd ymrwymiad i sicrhau bod y gwaith y mae'n ei wneud, a'r gwaith mae'r awdurdod yn ei wneud, yn diwallu anghenion preswylwyr lleol.**

[1] Yn ôl yr ymchwil gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus

2.1.10 Weithiau, bydd yr ymrwymiad hwn yn ei amlygu ei hun mewn trafodaethau a dadleuon gwleidyddol. Fel partneriaid ac fel cynghorwyr, dylech gydnabod bod craffu'n aml yn archwilio materion sy'n wleidyddol iawn eu natur.

2.1.11 Nid yw hyn o anghenraid yn beth negyddol. Rhai o'r enghreifftiau gorau o graffu da yw'r rheini lle mae aelodau, swyddogion a phartneriaid wedi ffrwyno pŵer dadleuon gwleidyddol er mwyn dadansoddi'r mater dan sylw. Er enghraifft, mae nifer o adolygiadau llwyddiannus iawn wedi'u cynnal ynglŷn ag ofnau preswylwyr lleol ynglŷn â throseddu - mater emosiynol a gwleidyddol y mae aelodau, gan eu bod yn deall gwleidyddiaeth leol a'r gymuned leol, mewn sefyllfa dda iawn i'w archwilio.

## 2.2 Materion strwythurol

2.2.1 Mae'r pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru yn gwasanaethu nifer o wahanol awdurdodau lleol, a'r rheini wedi'u cwmpasu'n llwyr o fewn eu hardal. Mae hyn yn golygu y gall fod yn rhaid i un awdurdod heddlu ymdrin â nifer o awdurdodau ar wahân mewn gwahanol Bartneriaethau yn eu hardaloedd. Gall hyn roi adnoddau dan bwysau, yn enwedig o fewn awdurdodau'r heddlu. Dylai partneriaid a chraffwyr ystyried y broblem hon. Ar hyn o bryd, nid oes sylfaen statudol ar gyfer sefydlu cydbwyllgorau craffu yng Nghymru a dylai pwyllgorau craffu cyfagos ystyried y ffactor hon wrth bennu amserlenni.

**Yn ystod 2005, sefydlodd Rhondda Cynon Taf Weithgor Craffu ar Ddiogelwch Cymunedol i wneud gwaith craffu allanol cydweithredol, a oedd yn ystyried y llwyddiannau a'r heriau a wynebid gan y Bartneriaeth a rôl y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Deilliodd nifer o ganlyniadau cadarnhaol o'r adolygiad craffu hwn, yn enwedig penodi swyddog yn Bennaeth ar y Bartneriaeth a chychwyn lledaenu rhaglen SAFE (ymwybyddiaeth o sylweddau i bawb) ledled Rhondda Cynon Taf. Cafwyd adborth gan Weithrediaeth y Cyngor ynglŷn ag argymhellion a oedd yn berthnasol i'r Awdurdod. Cyflwynodd cynrychiolydd Heddlu De Cymru ymateb y Bartneriaeth i'r argymhellion i gyfarfod o'r gweithgor.**

## 2.3 Meysydd craffu allweddol

### Defnyddio gwahanol dechnegau

2.3.1 Gellir craffu ar faterion diogelwch cymunedol mewn sawl ffordd. Er bod adran 19 ac 20 a'r rheoliadau'n canolbwyntio ar bwyllgorau, mae llawer o waith craffu'n debygol o gael ei wneud mewn gwahanol ffyrdd.

- **Datblygu polisïau** - efallai y bydd pwyllgorau craffu'n cynnal adolygiadau craffu manwl sy'n canolbwyntio ar bwnc perthnasol penodol lleol. Yn aml, gwneir hyn drwy gyfrwng grŵp gorchwyl a gorffen, a fydd yn archwilio'r dystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau cyn cynhyrchu adroddiad ac argymhellion, y bydd yn rhaid i'r partneriaid a/neu weithrediaeth y cyngor ymateb iddo. Gellid dadlau mai'r darnau hyn o waith a gaiff yr effaith fwyaf ar lunio polisïau'n lleol, a byddwn yn rhoi ychydig o enghreifftiau o'r rhain ichi isod.

- **Cyfrannu at ddatblygu strategaethau** - os bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn llunio strategaeth, cynllun, neu bolisi, gall fod yn ddefnyddiol cynnwys proses ar gyfer craffu yn ystod y cam drafftio. Gall cynghorwyr roi tystiolaeth werthfawr i gefnogi'r broses ddrafftio - yn enwedig gwybodaeth am y gymuned leol.
- **Dal pobl yn atebol mewn gwrandawiadau ffurfiol** - dod â chynrychiolwyr y bartneriaeth i mewn a'u holi am eu rolau, eu cyfrifoldebau, a'u gweithgareddau. Dyma'r ffordd symlaf i'r pwyllgor craffu "ddal y bartneriaeth yn atebol", er bod i hyn ei gyfyngiadau o ran canlyniadau adeiladol a dylai fod yn rhan fach o'r rhyngweithio rhwng craffu a'r bartneriaeth.
- **Rheoli perfformiad** - archwilio perfformiad y bartneriaeth a hynny'n aml drwy ddefnyddio cardiau sgorio lefel uchel, neu lle bo hynny'n briodol, data mwy manwl. Bydd y swyddogaethau craffu gorau'n defnyddio hyn yn gyfle i edrych ar berfformiad "drwy gyfeirio at eithriadau" (gan dynnu sylw at berfformiad arbennig o dda, ac at berfformiad arbennig o wael). Gallai hyn olygu bod y pwyllgor yn edrych ar berfformiad arbennig o dda, i weld pa wersi y gellir eu dysgu, gan rannu arferion da ar draws yr holl gyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector sy'n gweithio yn yr ardal leol.

**Cryfderau penodol craffu**

2.3.2 Gellir defnyddio craffu, drwy ddefnyddio'r gwahanol dechnegau uchod, ar gyfer sawl gwahanol faes polisi. Nodwyd nifer o gryfderau penodol craffu - ymgysylltu â phobl leol a'u cynnwys, dadansoddi materion sy'n destun pryder yn lleol a hybu cydweithio - rhoddir enghreifftiau o adolygiadau llwyddiannus sy'n dangos y rhain.

*Ymgysylltu â phobl leol a'u cynnwys*

2.3.3 Gall gwaith craffu gynorthwyo partneriaid diogelwch cymunedol i gynnwys pobl leol yn fwy yn y gwaith y maent yn ei wneud. Gall hyn fod yn anodd i bartneriaid ei wneud ar eu pen eu hunain, ac mae'r profiad a'r wybodaeth - a gwybodaeth am y gymuned - y gall cynghorwyr eu cynnig i'r broses yn amhrisiadwy.

2.3.4 Wrth gwrs, efallai eich bod yn teimlo bod angen ymagwedd fwy hyblyg. Mae llawer o awdurdodau wedi cynnwys pobl leol i raddau helaeth wrth iddynt wneud eu gwaith drwy eu cyfethol i grwpiau "gorchwyl a gorffen" anffurfiol yn hytrach nag yn aelodau o'r pwyllgor ffurfiol.

*Dadansoddi materion sy'n destun pryder yn lleol*

2.3.5 Mae ofn troseddau'n fater pwysig i lawer o bobl. Gall hyn beri problemau i bartneriaid, sy'n ei chael yn anodd cysoni'r canfyddiad hwn â'r realiti, sef mewn llawer ei ardal, bod lefelau troseddu'n gostwng. Bydd pobl leol weithiau'n dehongli hyn fel amharodrwydd i ymateb i broblemau y maent yn "gwybod" eu bod yn bodoli yn y gymuned leol, ni waeth am y dystiolaeth sydd wedi'i chasglu gan ffynonellau megis y cyngor a'r heddlu. Gall craffu chwarae rhan hollbwysig, ac mae wedi chwarae rhan o'r fath, wrth ddatrys y gwrthdaro hwn a chynnig ffordd ymlaen i bobl leol ac i weithwyr proffesiynol.

## Dadansoddi materion sy'n destun pryder yn lleol

**Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r swyddogaeth Craffu wedi ystyried gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn rheolaidd ers 2004. Mae cysylltiadau gweithio cadarnhaol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a phartneriaid lle mae rolau Arweiniad Cymunedol wedi'u trafod a'u hegluro. O ran yr agenda tawelu meddwl, mae'r Aelodau wedi archwilio effeithiolrwydd proses PACT ac i ba raddau y mae partneriaid wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau'r gymuned. Mae hyn wedi cynnwys ystyried canfyddiad y cyhoedd o broses cyfarfodydd PACT a pha gamau y gellid eu cymryd i roi mwy o hyder iddynt yn eu heffeithiolrwydd. Ar hyn o bryd, mae'r aelodau'n ystyried materion sy'n ymwneud â Thrais Domestig ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**

2.3.6 Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater arall sy'n aml yn uchel ar yr agenda wleidyddol leol, a hwnnw'n gysylltiedig â'r ofn mwy cyffredinol ynglŷn â throseddu y cyfeiriwyd ato uchod. Yma, unwaith eto, gall craffu fod o gymorth i chwalu canfyddiadau a rhoi tystiolaeth glir sy'n gefn i argymhellion polisi penodol.

**Yng Nghaerdydd, cynhaliwyd adolygiad gan y swyddogaeth craffu o agwedd yr ardal at ddiogelwch cymunedol, gyda'r bwriad o "brif-ffrydio" dealltwriaeth o ddiogelwch cymunedol (ar draws y cyngor yn bennaf), er mwyn ymateb i amcanion adran 17 o Ddeddf Troseddu ac Anhrefn (a esboniwyd yn adran 1).**

Caiff llawer o'r materion hyn eu harchwilio'n fanylach yn Adran 3, isod.

### 2.4 Materion mwy cyffredinol sy'n ymwneud â gwaith partneriaeth

2.4.1 Dim ond un rhan o agenda ehangach i greu polisïau lleol ar gyfer gwaith partneriaeth yw craffu ar faterion diogelwch cymunedol. Mae cyfle sylweddol i graffu gyfrannu at yr agenda hon, ac mae'n bwysig nad yw craffu ar bartneriaid diogelwch cymunedol ac ar faterion diogelwch cymunedol yn ymarfer sy'n digwydd ar ei ben ei hun. Bydd gan graffu rôl i'w chwarae o ran cysylltu partneriaid sy'n gweithio ar draws y sbectrwm creu polisïau lleol - nid dim ond y rheini sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol.

2.4.2 Dylai cynghorau ddatblygu ffyrdd o integreiddio craffu ar faterion diogelwch cymunedol o fewn strategaeth gydlynol a chyson ar gyfer craffu ar bartneriaid eraill ac ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

# Adran 3 - Canllawiau manwl ar adran 19 ac 20 o'r Ddeddf a'r Rheoliadau

## 3.1 Beth mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud

3.1.1 Mae Adran 19 o'r Ddeddf yn mynnu bod gan bob awdurdod lleol (yng Nghymru, pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) bwyllgor craffu ar gyfer troseddu ac anhrefn a chanddo'r pŵer i adolygu gwaith yr awdurdodau cyfrifol ac i graffu arno (yng nghyswllt eu swyddogaethau ym maes troseddu ac anhrefn) ac i lunio adroddiadau neu argymhellion i'r awdurdod lleol sy'n ymwneud â chyflawni'r swyddogaethau hynny. Rhaid anfon unrhyw adroddiad a gynhyrchir gan bwyllgor o'r fath at bob un o'r partneriaid diogelwch cymunedol. Gall unrhyw gynghorydd gyfeirio mater lleol sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn at y pwyllgor hwn, boed y cynghorydd hwnnw'n aelod o'r pwyllgor neu beidio, gan ofyn iddo ystyried y mater hwnnw. Mae mater troseddu ac anhrefn lleol yn un sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn mewn perthynas  â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill sy'n effeithio ar bob rhan, neu ar ran benodol, o'r ardal etholiadol y mae'r aelod wedi'i ethol ar ei chyfer neu ar unrhyw berson sy'n byw neu sy'n gweithio yn yr ardal honno. Os bydd y pwyllgor yn penderfynu peidio ag ystyried mater a gyfeiriwyd ato, rhaid iddo esbonio'u penderfyniad i'r cynghorydd ond, os ystyrir y mater, rhaid i unrhyw adroddiad a gynhyrchir gael ei ystyried gan y rhiant gyngor neu gan y partner diogelwch cymunedol perthnasol a rhaid iddynt ddweud yn fanwl sut y byddant yn ymateb ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor. (Gelwir hyn yn broses "cynghorydd yn galw am weithredu").

3.1.2 Mae Adran 20 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynhyrchu'r canllawiau statudol hyn yng nghyswllt Cymru ac yr oedd hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynglŷn â chyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud â throseddu ac anhrefn. Yn y naill achos a'r llall, rhaid cael ymgynghori rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.1.3 Mae Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Arolygu a Chraffu) 2009 ("y Rheoliadau") yn galluogi pwyllgorau awdurdodau lleol i gyfethol aelodau i'r pwyllgor craffu ar droseddu ac anhrefn a chaiff y pwyllgor roi hawliau pleidleisio iddynt. Mae'n bosibl y bydd y pwyllgor yn penderfynu cyfyngu ar gyfraniad y rhai a gyfetholir i feysydd pwnc penodol. Rhaid i'r rhai a gyfetholir fod yn swyddogion neu'n aelodau o gyrff partneriaid diogelwch cymunedol. Caiff y pwyllgor ddileu eu haelodaeth unrhyw bryd.

3.1.4 Mae'r Rheoliadau'n dweud ei bod yn rhaid i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Os bydd y pwyllgor yn gofyn am wybodaeth gan y partneriaid diogelwch cymunedol, rhaid darparu'r wybodaeth honno erbyn dyddiad rhesymol a bennir gan y pwyllgor, gyda rhai eithriadau penodol. Gall y pwyllgor hefyd fynnu bod aelod neu swyddog o gorff sy'n bartner ar gael i ateb cwestiynau. Pan fydd y pwyllgor yn anfon adroddiad at gorff sy'n bartner, rhaid iddo ymateb o fewn 28 niwrnod.

## 3.2 Strwythurau pwyllgorau

3.2.1 Mae **Adran 19** o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn mynnu ei bod yn rhaid i bob awdurdod lleol gael pwyllgor troseddu ac anhrefn a chanddo'r pŵer i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wneir neu gamau eraill ar gymerir yng nghyswllt yr awdurdodau cyfrifol yn cyflawni eu swyddogaethau ym maes troseddu ac anhrefn.

3.2.2 Cylch gorchwyl y pwyllgor yw craffu ar waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r partneriaid sy'n rhan ohoni, **i'r graddau bod eu gweithgareddau'n berthnasol i'r bartneriaeth ei hun**. Rhestrir y partneriaid hyn yn adran 1, uchod.

**Gwaith pob awdurdod - ynghyd â'i bartneriaid - yw penderfynu ar y ffordd orau ymlaen i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer y pwerau craffu newydd hyn.**

- Nid yw'r Ddeddf a'r Rheoliadau'n mynnu bod cynghorau'n newid strwythur eu pwyllgorau. Fodd bynnag, rhaid cael man ffurfiol lle y gellir trafod materion diogelwch cymunedol. Gallai pwyllgor (neu is-bwyllgor) arolygu a chraffu arbennig ar gyfer troseddu ac anhrefn ysgwyddo'r rôl craffu hon ar gyfer diogelwch cymunedol, neu bwyllgor craffu sydd ar gael eisoes sy'n ymdrin â materion diogelwch cymunedol. Gall y pwyllgor sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen i edrych ar faterion penodol ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor. Gall hynny fod yn ffordd effeithiol o ymdrin yn fanwl â mater ond mewn awyrgylch anffurfiol.

**Ni waeth ai cynghorydd ai partner ydych chi, fe welwch fod gwaith craffu'n fwy effeithiol os bydd yn canolbwyntio ar fater polisi, yn hytrach nag ar un sefydliad.**

**Dyna pam mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau i graffu ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, ac ar swyddogaethau'r partneriaid sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn hytrach nag ar y partneriaid eu hunain - mae hyn yn gymorth i ganolbwyntio ar bolisi ac ar ganfod atebion. Mae canolbwyntio ar bolisi:**

- **yn rhoi'r sicrwydd i'r partneriaid bod y pwyllgor craffu ar droseddu ac anhrefn yno i sicrhau bod y Bartneriaeth yn atebol a bod ei pherfformiad yn cael ei wella, yn hytrach na'i fod yn gwneud dim mwy na 'beirniadu' y partneriaid**
- **yn pwysleisio'r ffaith fod craffu'n canolbwyntio ar wella, ar gryfhau perfformiad gwasanaethau sydd ar gael eisoes, ac ar archwilio'n adeiladol flaenoriaethau'r bartneriaeth**
- **yn golygu bod mwy o le i'r pwyllgor neu i grŵp o aelodau, groesi ffiniau trefniadaethol yn ystod eu harchwiliad.**

### 3.3 Rôl y pwyllgor

3.3.1 Dylai'r pwyllgor, ar ba ffurf bynnag y'i rhoddir ar waith, fod yn 'gyfaill beirniadol' i'r Bartneriaeth, gan roi her adeiladol iddi ar lefel strategol yn hytrach na chanfod beiau mewn ysbryd gwrthwynebus ar lefel weithredol.

3.3.2 Ar y lefel sylfaenol, rôl y pwyllgor yw gwneud y canlynol:

- Ystyried Galwadau am Weithredu gan Gynghorwyr sy'n codi drwy broses gytunedig y cyngor. Mae'r blwch isod yn sôn rhagor am hyn.
- Ystyried y camau a gymerir gan awdurdodau cyfrifol y Bartneriaeth.

- Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r awdurdod lleol gyda golwg ar y swyddogaethau hynny. O safbwynt ymarferol, dylai natur y pwyllgor a'i waith olygu rhoi argymhellion uniongyrchol i'r partneriaid cyfrifol hefyd. Byddwn yn trafod hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

3.3.3 Dylai'r pwyllgor gynnwys yn ei raglen waith restr o faterion y mae angen iddo roi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn. Dylid cytuno ynglŷn â hyn drwy ymgynghori â phartneriaid perthnasol y Bartneriaeth a dylai adlewyrchu angen lleol y gymuned.

Daeth y drefn **Galw am Weithredu gan Gynghorydd** i rym ym mis Hydref 2009. Mae'r drefn hon yn rhoi hawl newydd i gynghorwyr godi materion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau sy'n destun pryder lleol gyda phwyllgor arolygu a chraffu eu cyngor. Yna, gall pwyllgorau arolygu a chraffu benderfynu a ddylid defnyddio'u pwerau i archwilio'r mater hwn.

Mae amrywiaeth o ddewisiadau ar gael i bwyllgorau wrth iddynt ystyried sut mae ymateb. Gallent, er enghraifft, ysgogi adolygiad polisi, galw aelodau a swyddogion i ddod i gyfarfod ac ateb cwestiynau neu wneud argymhellion i'r weithrediaeth. Gallant hefyd fynnu bod y weithrediaeth yn adolygu penderfyniad y mae wedi'i wneud. Dylid anfon unrhyw adroddiad gan y pwyllgorau yn sgil Galw am Weithredu gan Gynghorydd i'r awdurdod lleol, i'r partneriaid diogelwch cymunedol ac at y cynghorydd lleol a gododd y mater.

Felly, mae'r drefn Galw am Weithredu yn gyfrwng gwerthfawr o ran rhoi'r arfau i gynghorwyr weithredu fel eiriolwyr pwerus ar ran y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac i gryfhau eto eu rôl fel hyrwyddwyr dros eu cymuned. Wrth gwrs, bydd cynghorwyr yn parhau i ddatrys materion yn anffurfiol, fel y maent yn ei wneud yn awr. Ond, os nad ydynt yn fodlon bod camau go iawn wedi'u cymryd i ddatrys y mater y maent wedi'i godi, byddant yn gallu gofyn i'r pwyllgor arolygu a chraffu fynd â'r mater ymhellach.

Bydd y drefn Galw am Weithredu gan Gynghorydd ar gyfer troseddu ac anhrefn yn arf pwysig wrth i bartneriaethau gydweithio er mwyn datrys problemau ym maes troseddu ac anhrefn, mewn fforwm sy'n agored i'r cyhoedd. Felly, dylai roi mwy o hyder i'r cyhoedd bod yr heddlu a'r awdurdodau lleol yn gwneud rhywbeth ynglŷn â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. (Dylid nodi, fodd bynnag, os yw pwyllgor yn trafod "gwybodaeth eithriedig" - a ddisgrifir yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - sy'n cyfeirio'n bennaf at gyfeiriadau at unigolion - efallai y bydd y pwyllgor yn penderfynu eithrio'r cyhoedd). Yn yr un modd, caiff y cyhoedd eu heithrio os yw'n debygol y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu iddynt gan dorri cyfrinachedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y drefn Galw am Weithredu i'w weld yn y Canllawiau Arferion Gorau yn http://www.idea.gov.uk/idk/core/page.do?pageId=9410176 Mae Adran 4.5 yn ymdrin â materion diogelwch cymunedol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r ffordd y mae'r drefn Galw am Weithredu'n gweithio yn y maes diogelwch cymunedol - a hefyd yn edrych ar brofiadau yn Lloegr - wrth iddi benderfynu a ddylid eu rhoi ar waith mewn meysydd eraill y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdanynt a sut mae gwneud hynny pan fydd yn ystyried defnyddio ei bwerau i wneud mesur ar gyfer craffu yn 2010.

*Dalier Sylw: Mae Adran 3.1 canllaw IDeA/CfPS yn cyfeirio at alwadau "blinderus ac ailadroddus" am weithredu. Cyflwynwyd y Rheoliadau yn Lloegr o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 ar gyfer adegau pan ellir diystyru galwadau o'r fath. Nid oes gan y Cynulliad na Gweinidogion Cymru bwerau rheoleiddio o'r fath ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai y bydd awdurdodau lleol am lunio protocolau a fydd yn dangos yn glir o dan ba amgylchiadau y dylid cynnwys mater ar agenda, a phryd na ddylid ei gynnwys, a phwy sy'n penderfynu hynny. Byddai rhywun yn disgwyl i'r rhain fod yn debyg i weithdrefnau pwyllgorau craffu eraill yn yr un awdurdod. Efallai y bydd protocolau o'r fath hefyd yn amlinellu'r camau y gall cynghorydd eu cymryd yn y gobaith o osgoi'r angen am alwad ffurfiol i weithredu. Hefyd, bydd angen i'r protocol ymdrin â pha mor gyflym y gellid disgwyl i alwadau i weithredu fynd rhagddynt. Fel rheol gyffredinol, gellid disgwyl i bwyllgor gyfarfod cyn pen chwe wythnos o gael galwad ddilys a gallai'r pwyllgor ddisgwyl i'r weithrediaeth/bwrdd ymateb i unrhyw adroddiad a gyflwynant o fewn mis i'w dderbyn.*

**Protocolau**

**Drwy'r adran hon, awgrymir y gallai partneriaid a'r swyddogaeth craffu yn yr awdurdod lleol (neu awdurdodau lleol) fod yn dymuno ystyried datblygu protocol byr, hyblyg ac ystyrlon sy'n pennu'r hyn a ddisgwylir gan aelodau craffu a chan bartneriaid yng nghyswllt y broses craffu ar ddiogelwch cymunedol. Gallai hyn yn wir eich galluogi i sicrhau bod rhaglen waith y pwyllgor yn bwrw gwreiddiau'n fwy effeithiol o fewn ei bwrpas craidd. Yn ddiamau, bydd yn hanfodol sicrhau bod y rhaglen waith yn iawn er mwyn sicrhau llwyddiant y broses graffu ar gyfer diogelwch cymunedol.**

**Os ydych yn ystyried datblygu protocol, cofiwch mai dull o gyflawni'r nod ddylai hwn fod - dull o wella'r berthynas rhwng y swyddogaeth graffu a'i phartneriaid. Nid dogfen gyfreithiol mohoni sy'n pennu safonau gofynnol ac nid rhywbeth y mae gofyn ichi "gydymffurfio" ag ef.**

**Efallai y bydd awdurdodau lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws ardal awdurdod heddlu yn dymuno ystyried cydweithio i greu protocolau tebyg.**

### 3.4 Amlder cyfarfodydd

3.4.1 Yn ôl y rheoliadau, gellir penderfynu'n lleol pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd, ar yr amod y cynhelir o leiaf un y flwyddyn, ac yn amodol ar unrhyw alwad am weithredu gan gynghorydd y bydd angen ei hystyried.

3.4.2 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu craffu ar ddiogelwch cymunedol unwaith y flwyddyn yn unig "fel mater o drefn", gallai'r cyfarfod blynyddol hwn fod ar ffurf digwyddiad sy'n edrych ar faterion troseddu ac anhrefn a thrafod pa faterion troseddu ac anhrefn y dylid eu hystyried yn y flwyddyn gyngor nesaf fel materion sy'n destun pryder yn lleol.

**Yn ogystal â hynny, dylai'r swyddogaeth graffu ystyried materion diogelwch cymunedol yn fwy cyson drwy gydol y flwyddyn, yn union fel y byddai'n ei wneud gydag unrhyw bwnc arall. Er ei bod yn anodd awgrymu ffigur mympwyol ar gyfer nifer "ddelfrydol" o gyfarfodydd, dylai swyddogaethau craffu a phartneriaid gydweithio i gynnig atebion lleol, a allai fod yn gyfuniad o gyfarfodydd ffurfiol, grwpiau "gorchwyl a gorffen" anffurfiol, neu ddulliau eraill o gasglu tystiolaeth a chynnwys y cyhoedd.**

**Fel rhan o rôl atebolrwydd y pwyllgor, gall fod o fudd gofyn i uwch aelodau'r Bartneriaeth fod yn bresennol mewn cyfarfodydd allweddol drwy'r flwyddyn. Gallai hyn gynnwys cadeirydd y bartneriaeth, yr aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldebau diogelwch cymunedol, neu uwch aelodau sefydliadau partner, megis comander yr heddlu lleol.**

### 3.5 Cyfethol

3.5.1 Mae'r rheoliadau'n caniatáu i bwyllgorau troseddu ac anhrefn gyfethol aelodau ychwanegol i wasanaethu ar y pwyllgor. Gall y rhai sydd wedi'u cyfethol fod yn arbenigwyr mewn meysydd penodol a gallant ddod â gwerth ac arbenigedd mawr i waith y pwyllgor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog awdurdodau lleol i ystyried y dewis hwn fel modd o gryfhau ei allu i graffu. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn glir p'un a oes gan bobl sy'n cael eu cyfethol hawliau pleidleisio ai peidio, yn ôl penderfyniad y pwyllgor, a gall y pwyllgor gyfyngu ar yr hawliau pleidleisio hyn yng nghyswllt meysydd polisi neilltuol.

3.5.2 Ni all y pwyllgor troseddu ac anhrefn ond cyfethol rhywun dan reoliadau Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder os ydynt yn gyflogeion, yn swyddogion neu'n aelodau un o'r awdurdodau cyfrifol (fel y'u rhestrir yn adran 1) neu'n bersonau neu'n gyrff y mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cyfrifol i weithio gyda hwy. Ni chaiff y rhai a gyfetholir fod yn aelodau gweithredol o'r awdurdod lleol. Dylai'r cyngor ofalu ei fod yn egluro rôl rhywun a gyfetholir fel hyn, y gall fod disgwyl iddo, fel rhan o'r pwyllgor, ddal ei sefydliad ei hun yn atebol. Dylai cynghorau a'u partneriaid ystyried sut y gellid datrys y gwrthdaro hwn rhwng buddiannau fel rhan o drefniadau cyfethol mwy cyffredinol.

3.5.3 Mae'r Rheoliadau yn rhoi'r pŵer i'r pwyllgor benderfynu pwy i'w gyfethol. Fodd bynnag, os bydd pwyllgor yn penderfynu ei fod yn dymuno cyfethol o un o'r sefydliadau partner, efallai y bydd yn well gan y pwyllgor gefnogi enwebiad gan y sefydliad dan sylw, gan wrthod aelodaeth

dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, neu os nad yw'r enwebai'n gymwys, er enghraifft gan ei fod yn aelod o weithrediaeth y cyngor.

3.5.4 Fel unrhyw bwyllgor craffu arall, caiff pwyllgor troseddu ac anhrefn wahodd "tystion sy'n arbenigwyr" i roi tystiolaeth, os yw'n dymuno. Mae'n bosibl y bydd pwyllgorau am ystyried cynrychiolwyr o'r trydydd sector yn hyn o beth. Bydd nifer o'r mudiadau hyn yn arbenigo mewn meysydd lleol perthnasol.

**Cyfethol ac awdurdodau'r heddlu**

3.5.5 Mae gan awdurdodau'r heddlu le unigryw yn nhirlun y Partneriaethau. Mae ganddynt rôl glir, statudol i ddal yr heddlu'n atebol am yr hyn a wnânt.

3.5.6 Yn y cyd-destun hwn, mae'n hollbwysig bod y craffu ar ddiogelwch cymunedol gan awdurdodau lleol yn ategu'r rôl hon. Dylai awdurdodau lleol, bob tro, dybio y dylai awdurdod yr heddlu chwarae rhan weithredol yn y pwyllgor pan drafodir materion diogelwch cymunedol - ac yn enwedig pan fydd yr heddlu'n bresennol.

3.5.7 Dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod o leiaf un aelod o'r pwyllgor troseddu ac anhrefn yn aelod o awdurdod yr heddlu. Os nad yw hyn yn bosibl, gellid rhoi gwahoddiad parhaol i aelod o awdurdod yr heddlu ddod i'r pwyllgor fel "cynghorwr arbenigol". Yn ddelfrydol, byddai'n aelod o awdurdod yr heddlu, ond os ceir cytundeb lleol, gall fod rhai amgylchiadau, a rhai cyfarfodydd, lle byddai un o swyddogion awdurdod yr heddlu'n fwy priodol. Er enghraifft, bydd angen gofal wrth wahodd aelodau awdurdod yr heddlu i fod yn bresennol os ydynt yn gynghorwyr hefyd.

3.5.8 Ni fyddai cynghorwr o'r fath yn aelod ffurfiol o'r pwyllgor, ond gallai gymryd rhan yn nhrafodaethau'r pwyllgor fel tyst arbenigol.

3.5.9 Dylid cymryd camau hefyd i sicrhau, lle bo hynny'n briodol, bod awdurdod yr heddlu'n gallu cyfrannu'n uniongyrchol at adolygiadau "gorchwyl a gorffen" sy'n cynnwys yr heddlu. Gall awdurdod yr heddlu a'r awdurdod lleol, neu'r awdurdodau sy'n cyflawni'r gwaith benderfynu rhyngddynt i ba raddau y byddai'n briodol iddynt ymwneud â'r math hwnnw o waith.

3.5.10 Dylai cytundeb ynglŷn â'r materion hyn - fel yr awgrymwyd ar ddechrau'r adran hon - fod yn rhan o brotocol rhwng yr awdurdod lleol a'i bartneriaid. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethau lleol, ac ar gyfer cytundeb ynglŷn â dulliau eraill o ymgysylltu a chynnwys pobl - rhannu rhaglenni gwaith a darparu gwaith ar y cyd sy'n berthnasol i'r heddlu, er enghraifft.

3.5.11 Y peth hollbwysig i'w gofio yw bod angen cynnal trefn ymgysylltu glir rhwng awdurdod yr heddlu a'r awdurdod lleol, fel cyrff cydradd, er mwyn sicrhau bod eu rolau'n ategu ei gilydd. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i fod yn bresennol mewn pwyllgor, ac ni ddylid trin hynny ond yn un elfen o'r ymgysylltu hwn.

3.5.12 Ni ddylai'r trefniadau hyn, a'r berthynas unigryw sy'n angenrheidiol rhwng cynghorau ac awdurdodau'r heddlu, dynnu sylw cyrff craffu neu eu partneriaid oddi ar y ffaith bod a wnelo craffu ar ddiogelwch cymunedol â mwy o lawer na'r heddlu a'u gweithgareddau'n unig, fel yr eglurwyd mewn adrannau blaenorol.

## Cyfethol neu beidio...

**Mae *Cyngor Dinas Caerdydd* yn defnyddio tystion arbenigol i wella'i arolygon craffu. Ym mis Tachwedd 2007, cynhaliodd y cyngor adolygiad thematig o strwythur y cyngor i leihau troseddu ac anhrefn. Mae Caerdydd yn ceisio defnyddio'r arbenigwyr â'r proffil uchaf posibl ar gyfer ei adolygiadau thematig, megis yr Athro Michael Parkinson ar gyfer cystadleurwydd a Ben Page o Ipsos Mori ar gyfer ymgynghori. Ar gyfer yr arolwg hwn, gwahoddwyd Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Llywodraeth y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref i gynnig arbenigedd ar lefel uchel ac i ategu eu dealltwriaeth o faterion ehangach.**

### 3.6 Ymateb i geisiadau

***Ceisiadau am wybodaeth***

**Fel rhan o'r broses o graffu ar droseddu ac anhrefn, bydd y pwyllgor craffu perthnasol, o bryd i'w gilydd, yn gwneud cais am ragor o wybodaeth gan y Partneriaethau - gwybodaeth am berfformiad, er enghraifft.**

**Pan ofynnir iddi, bydd yn ddyletswydd ar y Bartneriaeth i ddarparu'r wybodaeth hon. Nid oes amserlen benodol ar gyfer hyn, ond gall y pwyllgor ddisgwyl cael ymateb cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Byddai cyfnod o 30 diwrnod yn rhesymol.**

**Amserlenni**

3.6.1 Bydd gofyn i Bartneriaethau ymateb i geisiadau gan bwyllgorau o fewn amserlen resymol. Efallai y bydd y pwyllgor a'r bartneriaeth am gytuno ar amserlen benodol yn lleol.

**Dylai'r partneriaethau gadw mewn cof bod angen i'r wybodaeth a roddir fod yn berthnasol i bwrpasau'r pwyllgor. Dylech osgoi boddi cynghorwyr mewn môr o adroddiadau sy'n llawn jargon technegol. Gall hyn roi cyfle ichi ailystyried sut y gellid drafftio adroddiadau mewnol mewn arddull fwy hygyrch a sut i'w darparu'n ehangach i'r cyhoedd. Gallech enwebu swyddog cyswllt yn eich sefydliad i fod yn ddolen i'r pwyllgor craffu, er mwyn sicrhau bod y cyfathrebu'n gyflym ac yn effeithiol, a bod modd ymdrin â cheisiadau am wybodaeth mewn ffordd rwydd.**

**Os ydych yn gynghorydd, neu'n swyddog sy'n cynorthwyo cynghorwyr, dylech sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth yn gofyn am wybodaeth benodol a'u bod wedi'u hystyried yn ofalus. Dylid ceisio osgoi dyblygu (gyda cheisiadau eithaf diweddar, neu geisiadau gan gynghorau cyffiniol a allai effeithio ar yr un sefydliadau partner).**

### Ceisiadau am wybodaeth a diogelu data

3.6.2 Rhaid dadbersonoli'r wybodaeth a roddir gan bartneriaethau, heblaw bod angen dynodi unigolyn neu fod hynny'n briodol er mwyn i'r pwyllgor roi ei bwerau ar waith mewn ffordd briodol. Ni ddylai'r wybodaeth ychwaith gynnwys gwybodaeth a fyddai'n rhesymol debygol o ragfarnu camau cyfreithiol neu weithredoedd sefydliad partner yn y presennol neu yn y dyfodol. O safbwynt ymarferol, nid yw'n debygol y bydd angen i'r pwyllgor gael adroddiadau a fydd yn berthnasol i unigolion penodol, neu lle y crybwyllir unigolion penodol yng nghyswllt materion troseddu ac anhrefn.

3.6.3 Ni ddylid defnyddio Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn osgoi'r gofyniad i ddadbersonoli gwybodaeth drwy gynnwys adroddiadau nad ydynt wedi'u dadbersonoleiddio yn Rhan II agenda pwyllgor, fel eitem i'w hystyried heb fod y wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

### Gwneud argymhellion ac ymateb iddynt

3.6.4 Os bydd pwyllgor yn drafftio adroddiad neu argymhellion sy'n effeithio ar faterion diogelwch cymunedol, dylai'r canlynol ddigwydd:

- Dylid anfon copïau o'r adroddiadau a'r argymhellion gan nodi'r sawl y maent yn effeithio arnynt at y partneriaid unigol yn unol ag Adran 19(7) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.
- Dylai'r partner (neu'r partneriaid) perthnasol gyflwyno ymateb o fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad cyflwyno'r adroddiad neu'r argymhellion (neu os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl wedyn).
- Ar ôl cael yr ymateb, bydd angen i'r pwyllgor gytuno â'r partner(iaid) perthnasol ynglŷn â sut y byddir yn monitro'r cynnydd o ran rhoi'r argymhellion ar waith.

**Fel yr awgrymwyd eisoes, gallai protocol fod yn ddefnyddiol i ddiffinio sut bydd y trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol. Gallai protocol o'r fath ddarparu ar gyfer ymgynghori anffurfiol gan y swyddogaeth graffu â'r bartneriaeth ynglŷn ag adroddiad, neu argymhellion, cyn cyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol. Bydd yr ymgynghori hwn yn ei gwneud yn fwy tebygol bod yr argymhellion, pan gânt eu gwneud yn ffurfiol, yn berthnasol ac yn realistig.**

### 3.7 Mynd i gyfarfodydd y pwyllgor

3.7.1 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd y pwyllgor yn gofyn i gynrychiolydd o'r bartneriaeth fod yn bresennol.

3.7.2 Mae'n arfer cyffredin yng ngwaith Arolygu a Chraffu awdurdodau lleol i bobl fynd i gyfarfodydd i roi tystiolaeth i ymchwiliadau craffu. Mae'n arfer da'n aml i'r sawl sy'n mynychu gael manylion ynglŷn â pham y maent yn mynychu cyfarfodydd o'r fath.

**Os ydych yn bartner diogelwch cymunedol, a'ch bod yn cael cais o'r fath, bydd yn rhaid ichi anfon cynrychiolydd i fod yn bresennol ar yr amod bod y person wedi cael rhybudd rhesymol o'r dyddiad y bwriedir cynnal y cyfarfod. Nid yw ystyr "rhybudd rhesymol" yn glir yn y rheoliadau na'r ddeddfwriaeth ac mae'n rhywbeth y gellid ei ddiffinio mewn protocol lleol ar graffu ar droseddu ac anhrefn fel y bydd y pwyllgor a'r partneriaid lleol yn cytuno arno.**

**Ni ddylech ystyried gwahoddiad o'r fath yn fygythiad. Yn hytrach, mae'n gyfle i bartneriaid troseddu ac anhrefn a'r pwyllgor drafod materion sy'n destun pryder i'r naill a'r llall neu i dynnu sylw at waith cadarnhaol gyda'r nod o leihau troseddu ac anhrefn. Gall presenoldeb swyddogion/gweithwyr fod o gymorth hefyd o ran y broses craffu cyhoeddus leol. Fel rheol, bydd yn fwy priodol i weithwyr/swyddogion uwch fod yn bresennol, yn bennaf oherwydd ei bod yn debygol mai ganddynt hwy y bydd yr arbenigedd cyffredinol i'w galluogi i ateb cwestiynau ynglŷn â pholisi yn y cyfarfod ei hun.**

**Yn yr un modd, os mai cynghorydd ydych chi, ni ddylech ystyried y pŵer i wahodd cynrychiolwyr y bartneriaeth i ddod i gyfarfod i drafod materion diogelwch cymunedol yn bŵer y gallwch ei roi ar waith heb ystyried i ba raddau y gall y partneriaid yr ydych yn eu gwahodd gyfrannu, a'r gwerth y maent yn debygol o'i ychwanegu at drafodaeth pwyllgor.**

# Geirfa

Dyma ychydig o dermau y gallech ddod ar eu traws nad oes sôn wedi bod amdanynt yn y ddogfen hon:

- **Costio ar Sail Gweithgarwch -** dull a ddefnyddir gan yr heddlu yw hwn sy'n ceisio mesur sut y treulir amser yr heddlu, er mwyn gwella effeithlonrwydd. Nid yw'n cael ei ddefnyddio gymaint erbyn hyn am ei fod yn rhy fiwrocrataidd, ond fe'i defnyddir o hyd mewn ffordd fwy cyfyngedig.
- **Dadansoddi Plismona a Diogelwch Cymunedol (APACS)** - fframwaith mesur perfformiad yw hwn sy'n ymwneud â gwasanaethau allweddol a ddarperir gan yr heddlu pan fyddant yn gweithio ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaeth ag eraill. Fe'i gelwid gynt yn Asesiadau o Blismona a Diogelwch Cymunedol ac fe'i ailenwyd wedyn er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd ar Blismona. Nid fframwaith asesu yw APACS rhagor ond mae'n dal i gael ei ddefnyddio fel set o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer plismona a diogelwch cymunedol.
- **Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (APA)** - mae'n cynrychioli awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yn llais cenedlaethol iddynt. Mae'n cynorthwyo awdurdodau'r heddlu i wneud eu gwaith yn lleol. Yng Nghymru, sefydlwyd **Awdurdodau Heddlu Cymru (PAW)** yn Gydbwyllgor Statudol sy'n cynrychioli pob un o'r pedwar awdurdod, i gynghori ynglŷn â materion plismona yng Nghymru.
- **Ailfuddsoddi mewn Cyfiawnder** - cysyniad o America yw hwn a'i nod yw lleihau aildroseddu drwy symud adnoddau i lawr i'r lefel leol. Mae cynllun peilot ar waith ar hyn o bryd i roi'r syniad hwn ar brawf yn Llundain dan y teitl "Diamond Districts".
- **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB)** - dyma'r bwrdd partneriaeth sy'n goruchwylio cyfiawnder troseddol. Maent yn rhannu'r un ffiniau ag awdurdodau'r heddlu.
- **Model Gwybodaeth Cenedlaethol (NIM)** - model busnes yw hwn ar gyfer plismona sy'n defnyddio gwybodaeth am batrymau troseddu'n sail ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â defnyddio adnoddau, gan gynnwys adnoddau ar draws partneriaethau.
- **Cynllun Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth (PPO)** - cynllun yw hwn sy'n cael ei redeg gan bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i ganolbwyntio ar droseddwyr yr ystyrir eu bod yn peri'r risg fwyaf i gymunedau.
- **Cyfiawnder Adferol** - dull yw hwn a ddefnyddir ochr yn ochr â chyfiawnder troseddol i gynorthwyo dioddefwyr i deimlo bod y bennod ar gau, i gynorthwyo troseddwyr i sylweddoli pa effaith a gaiff eu troseddu ac i leihau'r tebygrwydd y byddant yn troseddu eto.
- **Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)** - darn o ddeddfwriaeth yw hwn sy'n rhoi'r pwerau i gyrff lleol ddefnyddio technegau cudd megis cadw dan wyliadwriaeth.
- **Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA)** - dyma'r asiantaeth genedlaethol sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â throseddau megis delio cyffuriau, gwyngalchu arian a thwyll mawr.

- **Yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona (NPIA)** - dyma'r corff plismona sy'n cyfateb i'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (IDeA). Mae'n cyhoeddi canllawiau, yn gwneud gwaith dysgu a datblygu ac yn cynnig rhywfaint o seilwaith genedlaethol.
- **Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)** - dyma'r arolygiaeth ar gyfer plismona, ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Comisiwn Archwilio i gynnal Asesiadau Cynhwysfawr ar Ardaloedd ac mae'n darparu APACS (gweler uchod).
- **Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)** - dyma'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli prif gwnstabliaid, ond mae ganddo rôl ehangach o ran datblygu polisïau nag sydd gan y rhan fwyaf o gymdeithasau proffesiynol. Yng Nghymru, mae ACPO Cymru (ACPOC) yn cynnig safbwynt Cymreig ar faterion strategol, gweithredol a chydweithredol sy'n effeithio ar blismona yng Nghymru.

# Adnoddau ar gyfer y Cam Cyntaf

**Gwefan Lleihau Troseddu**

www.crimereduction.homeoffice.gov.uk

Y wefan hon yw siop-un-stop y Swyddfa Gartref ar gyfer gwybodaeth ynglŷn â lleihau troseddu. Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth diddorol ar gael - er enghraifft yn www.crimereduction.homeoffice.gov.uk/toolkits mae'r pynciau dan sylw'n ymwneud ag amrywiaeth o feysydd a allai godi mewn arolwg craffu, megis Ofn Troseddau neu Droseddau'n sy'n Gysylltiedig ag Alcohol. Mae'r pecyn yn cynnwys ffeithiau a ffigurau a chyd-destun polisi ar gyfer pob pwnc, a allai fod yn llwybr hwylus defnyddiol ar gyfer ymchwil wrth ddesg. Ceir casgliad o waith ymchwil hefyd ar ystod eang o bynciau, o Warchod y Gymdogaeth, i Waith Rhyw ar y Stryd i Ladrata mewn Tacsis.

Mae'r tab ymchwil hefyd yn cynnwys tudalen sy'n eich cyfeirio at yr holl ffynonellau diweddar ar gyfer ystadegau troseddu.

**Cyflawni Cymunedau Diogelach: canllaw i weithio effeithiol mewn partneriaeth (2007)**

Dyma'r canllawiau swyddogol i Bartneriaethau Lleihau Troseddu ac Anhrefn yn Lloegr, a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Mae'n cynnwys y gofynion statudol, yr arferion a argymhellir, y rhwystrau a'r atebion posibl a rhestru gwirio ar gyfer rhoi pethau ar waith. Os yw'r swyddogaeth craffu'n bwriadu profi partneriaeth ar sail y safon arferion da, yr adnodd hwn yw'r lle gorau i ddechrau.

**Flanagan Review Final Report (2008)**

Yn 2007, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref arolwg annibynnol o blismona gan Syr Ronnie Flanagan i edrych ar blismona yn y gymdogaeth, biwrocratiaeth, atebolrwydd a rheoli adnoddau. Roedd Flanagan yn Brif Arolygydd ar y Gwnstabliaeth ac mae'n fawr ei barch yn y gymuned blismona. Roedd croeso eang i'w arolwg er iddo wrthod yn bendant â gwneud unrhyw argymhellion cadarnhaol ynglŷn ag atebolrwydd strwythurol yn yr heddlu. Mae'r adroddiad hwn yn un darllenadwy ac mae'n cynnig darlun defnyddiol o'r pryderon a'r blaenoriaethau yn y gymuned plismona.

**Engaging Communities in Fighting Crime (2008)**

Arweiniwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Louise Casey, y Cyn Tsar ar gyfer Parch. Mae ganddi enw am fod yn gadarn ac yn ddi-flewyn-ar-dafod. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar pam y mae cymunedau wedi colli ffydd mewn cyfiawnder troseddol, a pham nad ydynt yn cymryd rhan fwy gweithredol wrth ymladd troseddu. Mae'n adroddiad defnyddiol i bobol sy'n ymwneud â'r swyddogaeth craffu ei ddarllen am ei fod yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r cyhoedd, am ei fod wedi'i ysgrifennu mewn arddull sgwrsio ac am ei fod yn cynnig argymhellion ymarferol a diddorol, gan gynnwys ar gyfer awdurdodau lleol.

**O’r Gymdogaeth i’r Wlad Gyfan: Plismona ein Cymunedau Gyda’n Gilydd (2008)**

Dyma’r Papur Gwyrdd diweddaraf am blismona, a baratoes y ffordd ar gyfer Deddf Plismona a Throseddu 2009. Dyma’r darlun diweddaraf o safbwyntiau a bwriadau’r Llywodraeth bresennol yng nghyswllt plismona a diogelwch cymunedol. Dylai’r darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, na ddaw’r bwriad y cyfeirir ato i ddeddfu ar gyfer Cynrychiolwyr Troseddu a Phlismona newydd i rym, gan iddo gael ei ollwng o’r Mesur ychydig cyn ei gyhoeddi. Yn hytrach, sefydlwyd adolygiad mewnol gan y blaid Lafur dan David Blunkett i edrych eto ar fater dyrys sicrhau atebolrwydd lleol yr heddlu.

**Plismona a Rheoli Integredig yn y Gymdogaeth**

Nid oes cyhoeddiad ar gael yn gefn i hyn, ond mae gwybodaeth am y prosiect ar gael ar wefan IDeA. Mae IDeA a’r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona’n cydlynu grŵp o ‘safleoedd sy’n esiampl’ er mwyn cynorthwyo i fwrw ymlaen ag integreiddio plismona bro a rheoli cymdogaethau - un o argymhellion allweddol Adolygiad Flanagan.

**Gwefan Mynd i’r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

www.respect.gov.uk

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater allweddol, ac mae’n fater sydd o bwys arbennig i aelodau’r cyhoedd, ac felly i gynghorwyr. Adnodd-un-stop yw’r wefan hon ynglŷn â phopeth sy’n ymwneud â mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Un adnodd sy’n arbennig o ymarferol a diddorol yw’r casgliad o daflenni tywys gam wrth gam sy’n mynd i’r afael ag ystod o broblemau penodol iawn, o graffiti i fini-motos i dân gwyllt. Efallai y byddai pwyllgorau craffu sy’n cynnal adolygiadau thematig yn dod o hyd i adnoddau yma a fyddai o gymorth iddynt asesu perfformiad a nodi argymhellion cadarnhaol.

**Cynllun Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol 2008-11**
**Cwtogi ar Droseddu: Partneriaeth Newydd 2008-11**

Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen hyn gyda’i gilydd - un yw’r strategaeth gyffredinol ar droseddu, ac mae’r llall yn ddogfen sy’n canolbwyntio mwy ar ddiogelwch cymunedol ac yn disodli cynllun cynharach. Mae’r Cynllun Diogelwch Cymunedol yn adlewyrchu’r ymgyrch gyffredinol drwy’r llywodraeth i leihau’r baich canolog ar gyflawni’n lleol, er y bydd cynghorwyr yn gweld ei fod yn dal i ganolbwyntio i raddau helaeth ar flaenoriaethau cenedlaethol y bydd partneriaethau’n ymateb iddynt. Efallai na fydd y dogfennau hyn mor hwylus â rhai o’r adnoddau eraill i gynghorwyr eu defnyddio.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 942

## CRIMINAL LAW, ENGLAND AND WALES

## The Crime and Disorder (Overview and Scrutiny) Regulations 2009

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *6th April 2009* |
| *Laid before Parliament* | *8th April 2009* |
| *Coming into force in accordance with regulation 1(2)* | |

The Secretary of State makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 20(3) and (4) of the Police and Justice Act 2006(**a**).

In accordance with section 20(4) of that Act, the Secretary of State has consulted with the Welsh Ministers(**b**) regarding the provisions in relation to local authorities in Wales.

### Citation and commencement

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Crime and Disorder (Overview and Scrutiny) Regulations 2009.

(2) These Regulations shall come into force in respect of local authorities in England on 30th April 2009 and in respect of local authorities in Wales on 1st October 2009.

### Interpretation

**2.** In these Regulations—

"2006 Act" means the Police and Justice Act 2006;

"depersonalised information" means information which does not constitute personal data within the meaning of the Data Protection Act 1998(**c**).

### Co-opting of additional members

**3.**—(1) The crime and disorder committee of a local authority may co-opt additional members to serve on the committee subject to paragraphs (2), (3), (4) and (5).

(2) A person co-opted to serve on a crime and disorder committee shall not be entitled to vote on any particular matter, unless the committee so determines.

---

(**a**) 2006, c. 48. Section 20 has been amended by section 121 and has been prospectively amended by sections 126 and 241, and part 6 of Schedule 18 to the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c. 28).
(**b**) The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
(**c**) 2008 c.29.

(3) A co-opted person's membership may be limited to the exercise of the committee's powers in relation to a particular matter or type of matter.

(4) A crime and disorder committee shall only co-opt a person to serve on the committee who—

(a) is an employee, officer or member of a responsible authority or of a co-operating person or body; and

(b) is not a member of the executive of the committee's local authority (or authorities).

(5) The membership of a person co-opted to serve on a crime and disorder committee may be withdrawn at any time by the committee.

**Frequency of meetings**

**4.** A crime and disorder committee shall meet to review or scrutinise decisions made, or other action taken, in connection with the discharge by the responsible authorities of their crime and disorder functions as the committee considers appropriate but no less than once in every twelve month period.

**Information**

**5.**—(1) Where a crime and disorder committee makes a request in writing for information, as defined in section 20(6A) of the 2006 Act(**a**), to the responsible authorities or the co-operating persons or bodies, the authorities, or persons or bodies (as applicable) must provide such information in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) The information referred to in paragraph (1) must be provided no later than the date indicated in the request save that if some or all of the information cannot reasonably be provided on such date, that information must be provided as soon as reasonably possible.

(3) The information referred to in paragraph (1)—

(a) shall be depersonalised information, unless (subject to sub-paragraph (b)) the identification of an individual is necessary or appropriate in order to enable the crime and disorder committee to properly exercise its powers; and

(b) shall not include information that would be reasonably likely to prejudice legal proceedings or current or future operations of the responsible authorities, whether acting together or individually, or of the co-operating persons or bodies.

**Attendance at committee meetings**

**6.**—(1) Subject to paragraph (2), a crime and disorder committee may require the attendance before it of an officer or employee of a responsible authority or of a co-operating person or body in order to answer questions.

(2) The crime and disorder committee may not require a person to attend in accordance with paragraph (1) unless reasonable notice of the intended date of attendance has been given to that person.

**Reports and recommendations**

**7.** Where a crime and disorder committee makes a report or recommendations to a responsible authority or to a co-operating person or body in accordance with section 19(8)(b) of the 2006 Act, the responses to such report or recommendations of each relevant authority, body or person shall be—

(a) in writing; and

---

(**a**) Section 20(6A) was inserted by section 121(2) of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c. 28).

(b) submitted to the crime and disorder committee within a period of 28 days from the date of the report or recommendations or, if this is not reasonably possible, as soon as reasonably possible thereafter.

Home Office
6th April 2009

*Vernon Coaker*
Minister of State

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under section 20(3) (in respect of local authorities in England) and 20(4) (in respect of local authorities in Wales) of the Police and Justice Act 2006. The Regulations supplement the provisions in section 19 of that Act by making provision for the exercise of powers by crime and disorder committees of local authorities.

Regulation 3 provides that crime and disorder committees may co-opt additional members from those persons and bodies who are responsible authorities within the meaning of section 5 of the Crime and Disorder Act 1998, and from those persons and bodies with whom the responsible authorities have a duty to co-operate under section 5(2) of that Act (the "co-operating persons and bodies") subject to the provisions set out in that regulation.

Regulation 4 provides that a crime and disorder committee shall meet to review or scrutinise decisions made, or other action taken, in connection with the discharge by the responsible authorities of their crime and disorder functions, no less than once in every twelve month period.

Regulation 5 provides that responsible authorities or co-operating persons or bodies must provide such information as is requested of them by the crime and disorder committee, subject to the provisions in that regulation.

Regulation 6 provides that a crime and disorder committee may require the attendance before it of a representative of a responsible authority or of a co-operating person or body in order to answer questions, subject to the provisions in that regulation.

Regulation 7 provides that where a crime and disorder committee makes a report or recommendations to responsible authorities or co-operating persons or bodies in accordance with section 19(8)(b) of the Police and Justice Act 2006, the responses to such report or recommendations of each relevant authority, body or person shall be in writing and within 28 days of the date of the report or recommendations or, if this is not reasonably possible, as soon as reasonably possible thereafter.

---

© Crown copyright 2009

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

E4163 4/2009 194163T 19585

(17) Guidance under subsection (16) may make different provision for different cases or for different descriptions of committee or sub-committee."

**126 Reference of local crime and disorder matters to crime and disorder committees etc**

(1) The Police and Justice Act 2006 (c. 48) is amended as follows.

(2) In section 19 (local authority scrutiny of crime and disorder matters), for subsections (3) to (8) substitute—

"(3) A local authority must—

(a) ensure that its crime and disorder committee has power (whether by virtue of section 21(2) of the Local Government Act 2000 or regulations made under section 32(3) of that Act or otherwise) to make a report or recommendations to the local authority with respect to any matter which is a local crime and disorder matter in relation to a member of the authority, and

(b) make arrangements which enable any member of the authority who is not a member of the crime and disorder committee to refer any local crime and disorder matter to the committee.

(4) For the purposes of subsection (3)(b), arrangements enable a person to refer a matter to a committee if they enable him to ensure that the matter is included in the agenda for, and discussed at, a meeting of the committee.

(5) Subsections (6) and (7) apply where a local crime and disorder matter is referred to a crime and disorder committee by a member of a local authority in accordance with arrangements made under subsection (3)(b).

(6) In considering whether or not to make a report or recommendations to the local authority in relation to the matter, the committee may have regard to—

(a) any powers which the member may exercise in relation to the matter by virtue of section 236 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (exercise of functions by local councillors in England), and

(b) any representations made by the member as to why it would be appropriate for the committee to exercise any power which it has by virtue of subsection (3)(a) in relation to the matter.

(7) If the committee decides not to make a report or recommendations to the local authority in relation to the matter, it must notify the member of—

(a) its decision, and

(b) the reasons for it.

(8) Where a crime and disorder committee of a local authority makes a report or recommendations to the authority by virtue of subsection (3)(a), it must—

(a) provide a copy of the report or recommendations to any member of the authority who referred the local crime and

disorder matter in question to the committee in accordance with arrangements made under subsection (3)(b), and

(b) provide a copy of the report or recommendations to such of—

(i) the responsible authorities, and

(ii) the co-operating persons and bodies,

as it thinks appropriate.

(8A) Subsection (8B) applies where the crime and disorder committee of a local authority—

(a) makes a report or recommendations to the authority by virtue of subsection (3)(a), or

(b) provides a copy of a report or recommendations under subsection (2) or (8)(b).

(8B) Where this subsection applies—

(a) the crime and disorder committee must notify the authority, body or person to whom it makes the report or recommendations or provides the copy that paragraph (b) applies, and

(b) the authority, body or person must—

(i) consider the report or recommendations;

(ii) respond to the committee indicating what (if any) action it proposes to take;

(iii) have regard to the report or recommendations in exercising its functions."

(3) In subsection (9)(b), for "subsection (1)(b) or (6)" substitute "this section".

(4) In subsection (11)—

(a) after the definition of "crime and disorder functions" insert—

"electoral area" has the meaning given by section 203(1) of the Representation of the People Act 1983;", and

(b) for the definition of "local crime and disorder matter" substitute—

"local crime and disorder matter", in relation to a member of a local authority, means a matter concerning—

(a) crime and disorder (including in particular forms of crime and disorder that involve anti-social behaviour or other behaviour adversely affecting the local environment), or

(b) the misuse of drugs, alcohol and other substances,

which affects all or part of the electoral area for which the member is elected or any person who lives or works in that area."

(5) Section 20 (guidance and regulations regarding crime and disorder matters) is amended as follows.

(6) In subsections (1) and (2), after "under" insert "or by virtue of".

(7) In subsection (5), omit—

(a) paragraph (f); and

(b) sub-paragraphs (i) to (iii) of paragraph (g).